# SICRHAU DYFODOL GWELL I LES ANIFEILIAID YNG NGHYMRU




Maniffesto RSPCA Cymru ar gyfer y seithfed Senedd

RSPCA CYMRU.



# CYFLWYNIAD

## Gan fod etholiad 2026 yn prysur agosáu, mae'r amser wedi dod i ystyried sut y gall Llywodraeth nesaf Cymru, y Senedd a phleidiau gwleidyddol ledled Cymru wella a blaenoriaethu lles anifeiliaid.

**MAE 85% O BOBL YNG NGHYMRU EISIAU I ANIFEILIAID GAEL EU DIOGELU DRWY GWEITHRED GAN Y LLYWODRAETH**

Yn ôl ein Mynegai Caredigrwydd diweddaraf, mae 85% o bobl yng Nghymru yn credu y dylai llywodraethau ddiogelu lles anifeiliaid trwy ddeddfwriaeth. Mae hyn ynddo'i hun yn dangos bod lles anifeiliaid yn flaenoriaeth allweddol i nifer fawr o bleidleisiwyr sy'n rhannu ein gweledigaeth am ddyfodol gwell i'n cyd-fodau.

Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr anifeiliaid sy'n galw Cymru'n gartref yn ystod chweched tymor y Senedd, a diddordeb y cyhoedd yn hyn o beth hefyd wedi parhau i dyfu. Sicrhawyd gwaharddiadau ar ddefnyddio maglau a thrapiau glud, cyflwynwyd system deledu cylch cyfyng gorfodol mewn lladd-dai a darparwyd adnoddau gwell i wella ymdrechion gorfodi sy'n gysylltiedig â lles cŵn, a hyn oll wedi arwain at warchod gwell ar filoedd o anifeiliaid unigol.

Ar 18fed o Chwefror 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru presennol ei bwriad i wahardd rasio milgwn yng Nghymru yn dilyn ymgyrchu gennym ni a'n sefydliadau partner. Ar adeg ysgrifennu, mae cwblhau'r broses ddeddfwriaethol berthnasol yn dal yn gyraeddadwy cyn etholiad 2026. Ond, mae hefyd yn bosib y bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r Senedd nesaf ymgymryd â'r camau gweithredu angenrheidiol hyn yn gyflym a'u datblygu.

Gallai Senedd newydd wedi'i hehangu wneud hyd yn oed mwy o gynnydd, ac mae'r cynllun hwn sydd â chwe phwynt iddo yn cynnig llu o awgrymiadau ynghylch sut y gellid cyflawni hyn. Gan fod anifeiliaid yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn ein bywydau a'n cymdeithas, mae ein maniffesto newydd yn manylu ar sut y gallwn fynd ati'n well i amddiffyn anifeiliaid anwes, anifeiliaid fferm, anifeiliaid gwyllt a phob math o anifeiliaid fel ei gilydd.

Dros y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod, edrychwn ymlaen at drafod sut y gallwn barhau i gydweithio gyda chynrychiolwyr etholedig presennol a darpar gynrychiolwyr etholedig i wneud Cymru yn lle hyd yn oed yn well i anifeiliaid. Drwy roi'r diogelwch cyfreithiol a haeddiannol sydd ei angen ar anifeiliaid, gallwn adeiladu ar ein henw da fel cenedl dosturiol, lle mae ystyried llesiant pawb a phopeth yn dod â ni i gyd at ein gilydd.



# GRYMUSO'R RSPCA



## Gan mai'r RSPCA yw'r unig elusen lles anifeiliaid sydd â swyddogion yn gweithio ar lawr gwlad i ymateb i adroddiadau o greulondeb ac esgeulustod gan y cyhoedd, mae ganddi felly rôl unigryw wrth ddiogelu anifeiliaid yng Nghymru.

Ers etholiad diwethaf y Senedd yn 2021, rydym wedi ailgartrefu tua 5,000 o anifeiliaid trwy'r ddwy ganolfan sydd gennym yng Nghasnewydd a Bryn-y-Maen a thrwy ein rhwydwaith o ganghennau pwrpasol.

**TUA**
**5,000**
**O ANIFEILIAID**
**WEDI'U HAILGARTREFU**
**ers 2021**

Drwy ein gwaith rydym yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid sydd wedi dioddef y mathau gwaethaf o greulondeb ac esgeulustod, a gallem leihau'r baich ar y gwasanaethau cyhoeddus sydd ar hyn o bryd yn gorfod camu i mewn i'w diogelu. Er mai ein nod yw bod yno i bob anifail sydd ei angen arnom, nid yw hyn bob amser yn bosibl oherwydd cyfyngiadau adnoddau. Fodd bynnag, byddai gwneud dau newid allweddol i'r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy'n sail i'n gwaith – Deddf Lles Anifeiliaid 2006 – ar lefel ddatganoledig yn ein galluogi i fod yn fwy effeithlon a helpu hyd yn oed mwy o anifeiliaid yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod.

### Rhoi pwerau statudol i'r RSPCA

Mae'r RSPCA yn bodoli i ysbrydoli byd lle mae pob anifail yn cael ei drin â charedigrwydd a pharch. Mae ein harolygwyr ar flaen y gad o ran y weledigaeth hon, gan weithio saith diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn i helpu anifeiliaid mewn angen. Ar hyn o bryd mae gennym 31 o arolygwyr a swyddogion achub anifeiliaid sy'n gweithio ar lawr gwlad yng Nghymru i achub anifeiliaid rhag creulondeb ac esgeulustod annirnadwy, gan gynnig cefnogaeth a chyngor ymarferol i berchnogion a cheidwaid anifeiliaid sydd angen cymorth.

Ar hyn o bryd mae ein harolygwyr a'n swyddogion achub yn delio â mwy na 4,000 o achosion sy'n ymwneud yn benodol â chreulondeb ac esgeulustod i anifeiliaid bob blwyddyn yng Nghymru, ac rydym yn derbyn un alwad bob 30 eiliad gan aelodau'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr.

Mae ein harolygwyr yn cyflawni eu dyletswyddau pwysig heb unrhyw bwerau statudol, sy'n golygu eu bod yn dibynnu'n fawr iawn ar gefnogaeth yr heddlu ac awdurdodau lleol. Nid oes llawer o bobl yn deall nad oes gan swyddogion yr RSPCA yr un pwerau a ddynodwyd i arolygwyr awdurdodau lleol o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (AWA). Er enghraifft, ni all arolygwyr yr RSPCA fynd i mewn i adeiladau allanol heb warant yr heddlu, ni allant ymafael mewn anifeiliaid yn awtomatig a'u symud o sefyllfa sy'n effeithio'n negyddol ar eu lles nac ychwaith ni chânt gyhoeddi hysbysiadau gwella a lles statudol o dan y Ddeddf.

Mae ein dibyniaeth ar hyn o bryd ar wasanaethau cyhoeddus statudol yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu hadnoddau hwy sydd eisoes dan bwysau, gan adael anifeiliaid sydd angen eu hachub mewn limbo neu'n cael eu cadw o dan amodau creulon am gyfnod hirach. Byddai rhoi pwerau statudol cyfyngedig i'r RSPCA a dynodi pwerau i'n swyddogion o dan y Ddeddf Llesiant Anifeiliaid yn ein galluogi i weithredu yn y ffordd y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl, gan helpu i ysgafnhau llwyth gwaith gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Drwy alluogi ein swyddogion i roi hysbysiadau lles statudol a lleihau'r camau sydd eu hangen i ni allu cael mynediad at anifeiliaid sy'n dioddef ac ymafael ynddynt, gallwn sicrhau y gallwn fod yno i hyd yn oed mwy o anifeiliaid sy'n cael eu hesgeuluso a'u cam-drin.

**Mae'r RSPCA yn bodoli i ysbrydoli byd lle mae pob anifail yn cael ei drin â charedigrwydd a pharch**



## Lleihau'r cyfnod ailgartrefu i anifeiliaid yr ymafaeliwyd ynddynt

Rhwng 2022 a 2024, llwyddwyd i sicrhau 248 o euogfarnau yn gysylltiedig â gwahanol rywogaethau o anifeiliaid yng Nghymru. Er ein bod bob amser yn annog y bobl hynny rydym am eu herlyn i lofnodi i roi perchnogaeth eu hanifeiliaid i ni cyn i ni ddechrau ar y broses hon, ni ellir sicrhau cydweithrediad o'r fath bob amser. Fel y mae, ni ellir ailgartrefu'r anifeiliaid sydd yn ein gofal dros dro yn ystod ein proses erlyn hyd nes bod yr achos wedi'i gwblhau gan yr ystyrir eu bod yn 'dystiolaeth'.

Gan fod hyn fel arfer yn cymryd nifer o fisoedd – neu hyd yn oed flynyddoedd mewn rhai achosion pan gyflwynir apeliadau – mae hyn yn ymestyn y broses sy'n atal anifeiliaid bregus rhag dod o hyd i gartref parhaol. Gan fod yr RSPCA yn ymgymryd ag 85% o gamau gorfodi o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yng Nghymru, mae'r drefn bresennol yn effeithio'n fawr iawn arnom.

Effeithir hefyd ar yr achub a wnawn pan ydym yn rhoi llety dros dro i anifeiliaid yr ymafaeliwyd ynddynt yn ystod gweithrediadau awdurdodau lleol, gan fod rhai mudiadau yn methu ymrwymo i gynorthwyo ymdrechion o'r fath oherwydd hyd yr amser sy'n gysylltiedig ag ailgartrefu anifeiliaid nad yw eu perchnogaeth wedi'i throsglwyddo iddynt.

O'r herwydd, byddai dull newydd sy'n galluogi trosglwyddo perchnogaeth anifeiliaid yr ymafaeliwyd ynddynt i ofal achubwyr yn gyflymach – fel yr un yn yr Alban lle gellir ailgartrefu anifeiliaid o'r fath ar ôl 21 diwrnod – yn gwella lles cyffredinol yr anifeiliaid dan sylw. Gallai camau o'r fath trwy welliant i Adran 20 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 hefyd leihau costau llety ar gyfer anifeiliaid yr ymafaeliwyd ynddynt a rhyddhau lle i gynnal camau gorfodi pellach – gennym ni ein hunain ac awdurdodau lleol. Gallai hyn olygu cadw llai o anifeiliaid mewn sefyllfaoedd lle peryglir eu lles a lleihau'r pwysau cyffredinol ar yr asiantaethau sy'n gyfrifol am amddiffyn rhai o'r anifeiliaid mwyaf bregus yn ein cymdeithas.





# GWARCHOD EIN HANIFEILIAID ANWES

**I lawer, mae eu hanifeiliaid anwes yn aelodau pwysig o'u teuluoedd.**



# Mae'r buddion cadarnhaol y mae ein hanifeiliaid anwes yn eu rhoi inni yn ddiddiwedd – maent yn cynnig cysur a chwmni diamod inni yn ogystal â gwella ein hiechyd meddwl a'n lles.




Amcangyfrifir bod anifail anwes mewn mwy na hanner yr aelwydydd yng Nghymru (53%), a chŵn a chathod yw'r anifeiliaid anwes mwyaf cyffredin[1]. Gan fod nifer yr aelwydydd sydd ag anifeiliaid anwes wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n hanfodol bod mesurau diogelwch llym ac amddiffyniadau cyfreithiol gwell ar waith i warchod eu lles.

## Atal dwyn anifeiliaid

Er y gall lladrata anifail anwes fod â chanlyniadau dinistriol a hirdymor i berchnogion a'u hanifeiliaid, ar hyn o bryd ystyrir bod anifeiliaid anwes sydd wedi'u dwyn yn 'eiddo' yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol, sef Deddf Dwyn 1968. O'r herwydd, mae dwyn anifail anwes annwyl yng Nghymru yn cael ei drin yn yr un ffordd â dwyn gwrthrych difywyd fel waled, beic neu ffôn symudol, sy'n peri risg yr anwybyddir effaith emosiynol troseddau o'r fath. Byddai gwneud dwyn anifeiliaid anwes yn drosedd benodol yn gwneud i droseddwyr ail feddwl yn ogystal ag atal Cymru rhag dod yn darged i ladron anifeiliaid anwes oherwydd gwahaniaethau mewn deddfwriaeth.

Daeth Deddf Herwgydio Anifeiliaid Anwes yn gyfraith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2024, sy'n golygu y gallai unrhyw un a gafwyd yn euog o ddwyn ci neu gath wynebu dirwy ddiderfyn, uchafswm o bum mlynedd yn y carchar, neu'r ddau. Heb ddeddfwriaeth gyfatebol mewn grym yng Nghymru, rydym yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun yn ymwneud â dwyn anifeiliaid anwes. Dangoswyd cefnogaeth gref eisoes i gamau o'r fath yn ystod dadl yn y Senedd ar gynnig deddfwriaethol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2025[2].

## Sicrhau perchnogaeth gyfrifol ar gŵn

Trafodwyd cryn dipyn ar faterion sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth gyfrifol ar gŵn yn ystod chweched tymor y Senedd yn dilyn nifer o ddigwyddiadau difrifol ac angheuol yn ymwneud â chŵn yng Nghymru a thu hwnt. Bron â dyblu wnaeth nifer yr achosion o orfod mynd i'r ysbyty oherwydd cŵn ymysg poblogaeth oedolion nad ydynt yn henoed Cymru rhwng 2014-2022, gan effeithio'n arbennig ar yr ardaloedd ym myrddau iechyd Bae Abertawe, Cwm Taf Morgannwg a Betsi Cadwaladr[3]. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ystyried dull amgen o reoli cŵn, gan gydnabod pa mor gymhleth ydyw.

Gallai cyflwyno deddfwriaeth debyg i'r Bil Rheoli Cŵn (Cymru) a gynigiwyd yn flaenorol alluogi mwy o ffocws ar berchnogaeth gyfrifol ar gŵn, sicrhau cosbau cryfach a sicrhau gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus.

Gallai gorfodi deddfwriaeth o'r fath yn gadarn gan swyddogion rheoli cŵn neu swyddogion pwrpasol ar

**53%**
**O AELWYDYDD**
**GYDA ANIFEILIAID ANWES**
**YNG NGHYMRU**

1. www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-prif-ganlyniadau-ebrill-2021-i-fawrth-2022-html#101015
2. cofnod.senedd.cymru/Plenary/14803
3. www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0033350624001975?via%3Dihub#sec4

gyfer lles anifeiliaid sydd â phwerau sy'n gydnaws â lles ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel Hysbysiadau Rheoli Cŵn, alluogi ymateb gwell i ystod o ddigwyddiadau, gan amddiffyn lles pobl ac anifeiliaid yn well o ganlyniad. Mae hefyd yn allweddol sicrhau bod gan bob awdurdod lleol fynediad at y swyddogion/wardeiniaid hyn. Dylid ystyried hefyd a allai cynllun blynyddol cofrestru neu drwyddedu cŵn ddarparu cyllid hanfodol i helpu i fynd i'r afael â phroblemau perthnasol yng Nghymru hefyd a hwn wedi bod yn destun dadl ers amser maith a'r RSPCA wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymchwil yn ymwneud â hyn.

## Moderneiddio rheoleiddio bridio cŵn

Mae'r ffordd y caiff ci ei fagu yn gallu cael effaith gydol oes ar y ci fel oedolyn, ac felly mae'n hanfodol bod y rheoliadau perthnasol yn addas at y diben. Mae'n hen bryd diweddaru Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, a gobeithiwn y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn rhoi blaenoriaeth i hyn.

Gallai rheoliadau newydd ei gwneud yn ofynnol i bob bridiwr gofrestru (waeth faint o dorllwythi maen nhw'n eu cynhyrchu), cyflwyno cymhareb staff-i-gŵn gwell mewn sefydliadau bridio, ei gwneud yn ofynnol i roi mwy o ffocws ar gymdeithasoli a chyfoethogi cŵn bach, a rhoi sylw gwell i glinigau ffrwythlondeb cŵn, cŵn magu a chytundebau cyd-berchnogaeth. Er bod diweddaru'r ddeddfwriaeth berthnasol yn hollbwysig, mae darparu adnoddau, arian a chefnogaeth ddigonol i'r rheiny sy'n gyfrifol am ei gorfodi hefyd yn hanfodol.

Yn 2021, lansiwyd prosiect gorfodi awdurdodau lleol Llywodraeth Cymru, sef Trwyddedu Anifeiliaid Cymru, i gynorthwyo â gorfodi darnau perthnasol o ddeddfwriaeth. I adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn, dylid darparu adnoddau pwrpasol yn gyson i fynd i'r afael â phroblemau bridio anghyfreithlon a thrwyddedig, a chodi safonau mewn sefydliadau bridio.

## Rheoleiddio bridio cathod

Er bod bridio cŵn wedi cael ei reoleiddio yng Nghymru ers dros ddegawd, nid oes unrhyw fesurau cyfatebol ar waith ar hyn o bryd i ddiogelu lles cathod. Awgryma ymchwil diweddar bod o leiaf chwarter y cathod anwes yng Nghymru yn fridiau pedigri, a phoblogrwydd cathod o'r fath wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf[4]. Mae gan lawer o'r bridiau hyn broblemau iechyd – wedi'i achosi oherwydd dewis siapiau corff eithafol fel brachycephaly – mae'n bwysig bod mesurau diogelwch ar waith i sicrhau mai dim ond cathod iach a hapus sy'n cael eu bridio a'u gwerthu.

Byddai rheoleiddio bridio cathod yng Nghymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheiny sy'n elwa o'r arfer hwn lynu wrth rai safonau lles er mwyn sicrhau nad yw'r cathod hyn yn cael eu gor-fridio ac mai dim ond cathod o'r oedran iawn sy'n cael eu bridio. Mae gan bridio cathod pedigri y potensial i fod yn broffidiol – ac wrth i'r galw am gathod o'r fath gynyddu – mae felly angen mawr am reoleiddio bridio cathod.



## Gwella microsglodion

Mae gosod microsglodion yn elfen hanfodol o fod yn berchennog cyfrifol ar anifail anwes, gan sicrhau y gellir dychwelyd anifeiliaid anwes yn gyflym ac yn ddiogel i'w perchnogion os ydynt wedi crwydro, ar goll neu wedi'u dwyn yn ogystal â'u gwneud yn haws i'w hadnabod. Er ei bod wedi bod yn orfodol gosod microsglodion mewn cŵn yng Nghymru ers 2015, mae pryderon yn parhau ynghylch a yw'r system bresennol yn addas at y diben gan fod cynifer o wahanol ddarparwyr a chronfeydd data yn achosi dryswch.

Fel y mae, ni all pob sganiwr a ddefnyddir gan asiantaethau gorfodi ac achubwyr godi pob sglodyn gan effeithio ar eu gallu i olrhain anifeiliaid anwes. Gellid cael cryn welliannau yn hyn o beth drwy ddatblygu un gronfa ddata ganolog ac iddi un pwynt mynediad gan Lywodraethau Cymru, y DU a'r Alban.

Gellid hefyd yn sgil hyn wneud gosod microsglodion ar gathod yn orfodol yng Nghymru, fel y cyflwynwyd mewn mannau eraill. Amcangyfrifir nad oes microsglodyn gan fwy na chwarter o gathod Cymru sydd â pherchennog (tua 125,000)[5], felly gallai gwneud microsglodynnu cathod yn ofyniad cyfreithiol arwain at ragor o gathod coll yn ailymuno â'u perchnogion yn y blynyddoedd i ddod.

**125,000+ O GATHOD**
**SY'N EIDDO HEB EU MICROSGLODI**

4. www.cats.org.uk/media/ihngqsqe/cats-report-wales-2024.pdf
5. www.cats.org.uk/media/ihngqsqe/cats-report-wales-2024.pdf

## Cynyddu llety rhent sy'n caniatáu anifeiliaid anwes

Mae diffyg llety sy'n croesawu anifeiliaid anwes yng Nghymru yn parhau i roi perchnogion sy'n rhentu mewn perygl o orfod dewis rhwng cadw anifeiliaid anwes a chael mynediad at lety diogel a sicr. Amcangyfrifir mai dim ond 7% o eiddo rhent preifat sy'n cael eu hysbysebu i fod yn rhai sy'n croesawu anifeiliaid anwes[6], er gwaethaf y tebygolrwydd bod llawer o denantiaid eisoes yn berchen ar anifeiliaid anwes neu eu bod yn dymuno cael rhai. Gan fod hysbysebion sy'n datgan 'dim anifeiliaid anwes' yn dal yn gyffredin, rydym wedi galw ers tro ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Er bod Deddf Rhentu Cartrefi Cymru yn galluogi tenantiaid i ofyn am gynnwys cymal ychwanegol yn eu contractau i ganiatáu iddynt ofyn am ganiatâd i gadw anifail anwes, gall landlordiaid yn rhwydd wrthod ceisiadau fel y rhain. O'r herwydd, mae'r darpariaethau presennol yn methu â gwneud anifeiliaid anwes yn ddiofyn cyfreithiol mewn cytundebau tenantiaeth fel yr ydym wedi galw amdano ers tro.


**Yn ogystal â galw am well darpariaethau i berchnogion anifeiliaid anwes sy'n rhentu, rydym hefyd wedi dadlau dros fwy o gefnogaeth i'r rheiny sy'n eu cael eu hunain yn ddigartref.**

I lawer o bobl ddigartref sydd ag anifeiliaid anwes, mae eu hanifeiliaid yn gysur a chwmni hanfodol wrth roi ymdeimlad o bwrpas a threfn iddynt. Felly mae'n bwysig bod mwy o ddarparwyr llety dros dro, fel llochesi a hosteli, yn cael eu hannog i dderbyn anifeiliaid anwes - yn enwedig cŵn - er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd eu perchnogion yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Mae hefyd yn allweddol bod darparwyr gwasanaethau ac awdurdodau lleol yn derbyn yr arweiniad, yr hyfforddiant a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion penodol y demograffig hwn a bod gofynion i wneud hynny wedi'u cynnwys mewn strategaethau a chynlluniau perthnasol.

**DIM OND 7%**
**EIDDO RHENT PREIFAT SY'N CAEL EU HYSBYSEBU I FOD YN RHAI SY'N CROESAWU ANIFEILIAID ANWES**

6. www.zoopla.co.uk/discover/renting/renting-with-pets/



# GWELLA LLES CEFFYLAU

**Rhan fawr iawn o'n gwaith yng Nghymru yw gweithio gyda cheffylau, merlod ac asynnod – rhai wedi'u cadw a rhai gwyllt/lled-wyllt.**






## Rhwng 2022 a 2024, llwyddom i gael 27 o euogfarnau yn y llysoedd yn ymwneud â cheffylau yng Nghymru.

Awgrymodd amcangyfrifon blaenorol fod dros 44,000 o geffylau yng Nghymru, er y gallai'r nifer hwn fod wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf[7]. Cyflwynwyd Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) yn 2014 i roi mwy o bwerau i awdurdodau lleol ymafael mewn ceffylau sy'n cael eu canfod yn pori'n anghyfreithlon, yn crwydro neu wedi'u gadael. Gan fod dros ddegawd wedi mynd heibio ers cyflwyno'r darn allweddol hwn o ddeddfwriaeth, mae pryderon yn parhau ynghylch a yw'n cael ei ddefnyddio neu a yw'n cael yr effaith a ddymunir mewn perthynas â gwella lles ceffylau. Felly mae angen adolygiad o'r ddeddfwriaeth hon i sicrhau ei bod yn ddigonol ac yn rhoi'r pwerau perthnasol i swyddogion gorfodi – a bod ganddynt yr adnoddau i allu eu defnyddio.

7. www.statista.com/statistics/530776/number-horses-united-kingdom-uk/

## Rheoleiddio iardiau cadw ceffylau

Amcangyfrifir bod tua 60% o geffylau yn y DU yn cael eu cadw mewn iardiau cadw ceffylau[8]. Mae ymchwil diweddar a gynhaliwyd gan RSPCA Cymru yn awgrymu bod o leiaf 135 o iardiau cadw ceffylau unigol yn gweithredu yng Nghymru. Gan fod cynifer o geffylau yn cael eu cadw gan ddarparwyr fel y rhain, pryder sylweddol yw'r diffyg rheoleiddio ac unrhyw fath o safonau gofynnol i amddiffyn lles anifeiliaid.

**135+**

**O WASANAETHAU LIFRAU YNG NGHYMRU**

Yn wahanol i lety i gathod a chŵn – ac ysgolion marchogaeth – nid oes unrhyw ofynion deddfwriaethol na thrwyddedu penodol sy'n berthnasol i iardiau cadw ceffylau. Yn anffodus, mae astudiaethau wedi codi sawl pryder yn ymwneud â lles anifeiliaid sy'n benodol i iardiau cadw ceffylau, problemau y gellid mynd i'r afael â nhw – o leiaf, yn rhannol – trwy gyflwyno gorfodaeth cofrestru a thrwyddedu ar gyfer y sefydliadau hyn.

Mae ein hadroddiad diweddar, Horse Sense[9], yn dangos diffyg cyfleusterau sydd â digon o le i'r ceffylau ar y tu allan, a lle i bori a chymdeithasu, gan arwain at anghenion lles heb eu diwallu a llai o gyfleoedd ar gyfer lles cadarnhaol, ac i fynd i'r afael â hyn mae'r adroddiad yn cynnig rheoleiddio iardiau cadw ceffylau fel cam gweithredu.

## Mynd i'r afael â ffrwyno a chlymu ceffylau

Ers etholiad diwethaf y Senedd, rydym wedi derbyn cannoedd o adroddiadau yn ymwneud â cheffylau wedi'u clymu'n sownd â rhaff yng Nghymru. Er ein bod wedi gwrthwynebu'r dull hwn o gadw ceffylau ers tro byd oherwydd y perygl posibl i les ceffylau, eto mae'n dal yn arfer cyfreithiol a chyffredin. Mae cael eu ffrwyno neu eu clymu i bostyn yn cyfyngu ar allu ceffyl i symud eu corff yn rhydd, yn eu hatal rhag ymddwyn yn gymdeithasol a chwilota am fwyd, yn ogystal â chyfyngu ar eu mynediad at ddŵr a chwilio am loches a chysgod, heb sôn am eu hatal rhag dianc petai anifeiliaid eraill yn ymosod arnynt.

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer Lles Ceffylau yn cynghori yn erbyn defnyddio clymu fel ffordd hirdymor o reoli ceffylau[10]. Mae aelodau o'r cyhoedd sy'n rhoi gwybod am geffylau wedi'u clymu – sef ceffylau wedi'u clymu â rhaff, cadwyn, strap neu gortyn wrth ochrau ffyrdd, ar gylchfannau, mewn caeau a lleoliadau tebyg eraill – yn aml yn synnu o glywed bod hyn yn parhau i fod yn gwbl gyfreithlon.

Gan nad oes unrhyw fesurau deddfwriaethol sy'n benodol berthnasol i glymu ceffylau, dim ond os ydynt wedi'u hanafu neu mewn cyflwr gwael y gall ein swyddogion helpu anifeiliaid sy'n cael eu cadw yn y ffordd hon. Petai awdurdodau lleol yn mynd ati'n well i orfodi'r ddeddfwriaeth berthnasol, sef Deddf Lles Anifeiliaid 2006, ynghyd â chael gwell rheoleiddio ar yr arfer, byddai hynny'n gwella lles ceffylau wedi'u clymu yn fawr iawn.

Mae'n hanfodol felly fod yr adnoddau a'r hyfforddiant priodol ar gael i'r rheiny sydd â'r cyfrifoldebau statudol perthnasol, tra gallai adolygiad dan arweiniad Llywodraeth Cymru benderfynu a oes angen camau deddfwriaethol ar lefel ddatganoledig i fynd i'r afael â chlymu ceffylau.

8. Furtado, T., Perkins, E., McGowan, C., & Pinchbeck, G. (2021b). Equine Management in UK Livery Yards during the COVID-19 Pandemic—"As Long As the Horses Are Happy, We Can Work Out the Rest Later"

9. RSPCA (2025) Horse sense: A good life for horses through strengthening the horse–human relationship. Available from: www.rspca.org.uk/documents/d/rspca/2099_equine_welfare_crisis_report_rgb

10. www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/code-of-practice-for-the-welfare-of-horses.pdf



# GWELLA LLES ANIFEILIAID FFERM



**Gan fod ein gwlad yn gartref i o leiaf 11.8 miliwn o ddofednod, 8.7 miliwn o ddefaid, 1 miliwn o wartheg a 27,900 o foch[11], mae lles anifeiliaid fferm yn fater sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.**

# Fel y mae, mae Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am ymateb i achosion posibl o dorri deddfwriaeth ac adroddiadau am greulondeb honedig i anifeiliaid fferm.

Fodd bynnag, rhan allweddol o'n gwaith ni yw gwella eu lles, a hynny trwy ein hymdrechion ymgyrchu a'n polisïau ynghyd â'n cynllun sicrwydd lles anifeiliaid fferm a'n label bwyd moesegol, RSPCA Assured. Pan gaiff ei gyflwyno, disgwylir i gynllun talu cymorthdaliadau ffermio newydd Llywodraeth Cymru – y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – gyflwyno mesurau gorfodol yn gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid ynghyd ag opsiwn gwirfoddol i ffermwyr sy'n cadw at safonau uwch o ran hwsmonaeth eu hanifeiliaid. Serch hynny, mae nifer o gamau y gallai Llywodraeth nesaf Cymru eu cymryd i wella bywydau a lles anifeiliaid fferm Cymru ymhellach.

## Gwahardd defnyddio cewyll

Mae symud oddi wrth ddulliau ffermio isel eu lles ymhlith y materion pwysicaf i les anifeiliaid ar raddfa gyhoeddus, yn ôl ein Mynegai Caredigrwydd diweddaraf. Dangosodd yr ymchwil hwn fod tua dau o bob tri o bobl yn chwilio'n weithredol am gynhyrchion lles uwch ac/neu ieir maes oherwydd eu pryderon am les anifeiliaid.

Serch hynny, mae defnyddio rhai cewyll – megis llociau geni perchyll ar gyfer moch a chewyll 'wedi'u cyfoethogi' ar gyfer ieir dodwy – yn dal i fod yn gyfreithlon yma yng Nghymru, ynghyd â chadw adar hela mewn cewyll at ddibenion chwaraeon. Mae cael eu cadw mewn cewyll yn atal yr anifeiliaid hyn rhag ymddwyn yn naturiol trwy gyfyngu ar eu symudiadau, a gall hyn arwain at ddioddef diangen o ganlyniad. O'r herwydd, byddai gwahardd defnyddio cewyll yn gallu gwella lles anifeiliaid dirifedi ac yn sicrhau bod gan bob anifail yng Nghymru y potensial i fyw bywyd da.

## Mynd i'r afael â lladd heb stynio

Mae'r RSPCA wedi gwrthwynebu lladd heb stynio ers tro byd gan ein bod yn ystyried y dull yn greulon. Mae nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd yn y ffordd hon wedi cynyddu 18.5% ers 2022, yn ôl y ffigurau diweddaraf gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd[12]. Er bod lladd heb stynio wedi'i wahardd gan mwyaf yn y DU, mae eithriad sy'n caniatáu'r dull at ddibenion crefyddol ac mae hyn yn golygu y caiff dros 30 miliwn o anifeiliaid eu lladd yn y ffordd hon bob blwyddyn ar hyn o bryd[13].

Er y cadarnhawyd nad oedd lladd heb stynio yn digwydd yng Nghymru yn ôl yn 2019[14], mae'n bosibl y gallai hyn newid yn y dyfodol. Oherwydd hyn, rydym yn annog Llywodraeth Cymru nesaf i ystyried gwaharddiad ffurfiol ar drwyddedu lladd-dai o'r fath yng Nghymru er mwyn diogelu lles anifeiliaid.

## Cyflwyno labelu bwyd gorfodol

Er bod llawer o brynwyr yn chwilio am gynnyrch lles uwch, mae labeli aneglur neu absennol yn parhau i achosi dryswch ac yn ei gwneud hi'n anodd i brynwyr wneud penderfyniadau gwybodus digonol, neu brynu yn unol â'u bwriadau. Fel y mae, dim ond wyau cyfan neu wyau wedi'u plisgo sydd wedi'u dodwy gan ieir ynghyd â physgod heb eu prosesu megis eog sydd angen gwybodaeth ar eu pecynnu ynghylch sut y cafodd yr anifeiliaid dan sylw eu magu neu eu dal. Mae RSPCA Cymru wedi galw ers tro am gyflwyno labelu gorfodol yn nodi 'dull cynhyrchu' a 'dull lladd' i helpu prynwyr yng Nghymru i wneud dewisiadau mwy gwybodus am y cynhyrchion cig, pysgod a llaeth maen nhw'n eu bwyta.

Mae absenoldeb labelu clir ar hyn o bryd ar y rhan fwyaf o gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid yn rhoi'r ffermwyr sy'n eu cynhyrchu dan anfantais glir yn ogystal ag yn drysu prynwyr. Fodd bynnag, mae gan labelu gorfodol y potensial i chwyldroi penderfyniadau prynu – ynghyd ag ymddygiad a phatrymau prynu – a thrwy hynny gyfrannu at wella lles anifeiliaid yn gyffredinol. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru nesaf i gyfl wyno labelu gorfodol, naill ai drwy eu dull eu hunain neu drwy gydweithio â gweinyddiaethau cyfagos eraill.



DROS
30M+
O ANIFEILIAID Y FLWYDDYN YN CAEL EU LLADD HEB STYNIO

11. www.gov.wales/survey-agriculture-and-horticulture-june-2024-html
12. assets.publishing.service.gov.uk/media/67c5cf0e750837d7604dbdbf/25-02-14_Slaughter_Sector_Survey_2024__REVISED_.pdf
13. www.farminguk.com/news/rspca-calls-for-non-stun-slaughter-ban-as-numbers-rise-nearly-20-_65730.html
14. www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/slaughter-method-survey-report-2018-for-england-and-wales.pdf

# DEDDFWRIAETHU AR GYFER POB MATH O GREADUR

Er ein bod yn cael ein cydnabod yn eang am ein gwaith gydag anifeiliaid anwes, rydym yn eiriol dros bob math o greaduriaid yma yn yr RSPCA gan ein bod yn credu bod **pob anifail** yn haeddu amddiffyniadau cyfreithiol cryf.

## Rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid ac arddangosfeydd

A'r RSPCA bellach wedi llwyddo mewn pedwar erlyniad sy'n berthnasol i sefydliadau lles anifeiliaid fel llochesi, canolfannau achub a chanolfannau ailgartrefu yng Nghymru ers 2021, rydym yn fwy awyddus nag erioed i weld y sefydliadau hyn yn cael eu rheoleiddio. Nid yw llawer o bobl yn sylweddoli nad yw'r sefydliadau hyn ar hyn o bryd yn destun unrhyw oruchwyliaeth allanol, sy'n golygu y gall unrhyw un sefydlu lloches neu debyg, waeth a oes ganddynt y profiad, y sgiliau, yr arian neu'r wybodaeth briodol i ofalu am anifeiliaid bregus. Er bod hyn wedi arwain at beryglu lles anifeiliaid yn ddifrifol ar sawl achlysur, byddai trwyddedu'r sefydliadau hyn drwy awdurdod lleol yn arwain at welliannau mawr eu hangen. Rydym hefyd wedi galw ers tro am reoleiddio arddangos anifeiliaid, a hynny'n cynnwys llwythi o leoliadau a ffyrdd y mae anifeiliaid yn cael eu defnyddio a'u harddangos. Mae'r rhain yn cynnwys y rheiny a ddefnyddir at ddibenion dysgu ac addysgol, ar y cyfryngau ac mewn perfformiadau, arddangosfeydd adar ysglyfaethus, arddangosfeydd a thrin ymlusgiaid ac/neu anifeiliaid egsotig a llawer mwy. Gan fod yr anifeiliaid hyn yn aml yn gorfod teithio, gan addasu'n aml i wahanol amgylcheddau a bod yn agored i bobl ac amgylchoedd anghyfarwydd, mae eu lles dan berygl amlwg. Felly mae taer angen cynllun trwyddedu ac mae'n hen bryd cael cynllun o'r fath.



## Cydnabod ymdeimladoldeb anifeiliaid yng nghyfraith Cymru

Yn union fel ni, mae gan anifeiliaid y gallu i gael teimladau cadarnhaol a negyddol, fel pleser, llawenydd, poen a gofid. Yng Nghymru, nid yw polisïau datganoledig yn cael eu craffu ar hyn o bryd am eu heffaith ar ymdeimladoldeb anifeiliaid cyn rhoi'r polisïau hynny ar waith, sy'n golygu bod anifeiliaid yma yn destun llai o amddiffyniad cyfreithiol nag anifeiliaid tebyg mewn ardaloedd eraill yn y DU. Ers 2023, mae ymdeimladoldeb anifeiliaid wedi'i chydnabod o dan gyfraith Lloegr a'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth a gedwir yn ôl sy'n berthnasol i Gymru, trwy Ddeddf Lles Anifeiliaid (Ymdeimladoldeb) 2022.

Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn cynnwys creaduriaid nad ydynt wedi'u cynnwys yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006, creaduriaid megis ceffalopodau a chramenogion dectroed fel cimychiaid, crancod a môr-lewys. O'r herwydd, gobeithiwn y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn mynd ati i gydnabod ymdeimladoldeb anifeiliaid yng nghyfraith Cymru ac yn ymestyn amddiffyniadau cyfreithiol i'r rhywogaethau hyn o'r diwedd.

## Rheoleiddio cadw anifeiliaid anwes ecsotig

Yng Nghymru, mae modd i aelod o'r cyhoedd brynu bron unrhyw fath o anifail yn gyfreithlon a'i gadw yn eu cartref, er bod gofynion penodol ar gyfer rhai rhywogaethau. Gall anghenion anifeiliaid egsotig fod yn heriol i'w diwallu gan aelodau'r cyhoedd oherwydd bod eu hanghenion yr un fath ag y byddent yn y gwyllt; mae'r rhain yn gysylltiedig yn sylfaenol â rhai ymddygiadau, dietau neu amodau amgylcheddol a all fod yn anodd eu hatgynhyrchu mewn cartref. Dengys tystiolaeth ei bod hi'n annhebygol y caiff anghenion rhai bridiau a rhywogaethau eu diwallu mewn amgylchedd cartref ac mae'n annhebygol felly bod yr anifeiliaid hynny yn cael bywyd da[15]. O ganlyniad, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad ar fabwysiadu polisïau rhagofalus, ataliol, a seiliedig ar dystiolaeth i reoleiddio cadw anifeiliaid anwes egsotig, gan gyfyngu perchnogaeth breifat i rywogaethau sy'n debygol o gael lles da.

## Rhoi diwedd i roi anifeiliaid anwes yn wobrau

Yn dilyn ymgyrch lwyddiannus gan RSPCA Cymru, mae pob cyngor yng Nghymru wedi gwahardd rhoi anifeiliaid anwes yn wobrau mewn ffeiriau hwyl a digwyddiadau a gynhelir ar dir sy'n eiddo i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, gan nad yw'r gwaharddiadau hyn yn berthnasol i dir preifat, mae'r arfer yn dal i barhau. Yn aml, caiff anifeiliaid 'gwobr', fel pysgod aur, eu cadw a'u cludo mewn amodau nad ydynt yn diwallu eu hanghenion, gan arwain yn aml at eu marwolaeth cyn y gall eu perchnogion newydd hyd yn oed eu cael gartref.

Mae perchnogaeth anifeiliaid yn gyfrifoldeb mawr y mae angen ei gynllunio a meddwl amdano'n ofalus, yn hytrach na chanlyniad rhywbeth mympwyol sy'n aml yn digwydd mewn mannau fel ffeiriau. Mae RSPCA Cymru yn dal i dderbyn nifer o adroddiadau yn flynyddol sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid anwes a roddir fel gwobrau, rydym yn parhau â'n galwadau ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno gwaharddiad llwyr i atal yr arfer rhag parhau ar dir preifat.

## Gwahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes

Ar hyn o bryd, mae cadw primat fel anifail anwes yn gwbl gyfreithlon yng Nghymru, gydag amcangyfrifon yn awgrymu y gallai cannoedd o fwncïod fod yn byw yng nghartrefi pobl ledled y wlad[16]. Credwn fod amgylchedd cartref pobl yn gwbl anghydnaws â natur wyllt ac anghenion cymhleth primatiaid, ac na ellir diogelu eu lles yn ddigonol mewn lleoliadau domestig. Ers etholiad diwethaf y Senedd, mae RSPCA Cymru wedi sicrhau dau erlyniad yn gysylltiedig â phrimatiaid anwes yng Nghymru y mae eu lles wedi'i beryglu'n ddifrifol. Gan ein bod yn ystyried bod cadw primatiaid mewn lleoliadau domestig yn greulon ac yn beryglus, rydym yn parhau â'n galwad i wahardd yr arfer hwn yng Nghymru. Drwy symud tuag at system sy'n gwahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes, gan gynnwys y rhai a gedwir yn aml fel anifeiliaid anwes fel mwncïod cycyllog, marmosetiaid a gwiwerfwncïod, a chael cyfnod graddol i roi diwedd arno ar gyfer y rheiny sy'n cael eu cadw ar hyn o bryd, gallwn ddod â'r arfer hen ffasiwn hwn i ben yng Nghymru am byth.

## Cryfhau Codau Ymarfer sy'n gysylltiedig â lles

Fel rhan o'n haelodaeth o Rwydwaith Anifeiliaid Cymru (AWNW), rydym wedi gweithio gyda Llywodraethau blaenorol Cymru ar ddatblygu nifer o Godau Ymarfer (COPs) yn ymwneud â lles anifeiliaid. Mae'r codau cynhwysfawr hyn yn sôn am gŵn, cathod, ceffylau, anifeiliaid fferm, milgwn rasio a sefydliadau lles anifeiliaid.

Fodd bynnag, mae taer angen diweddaru rhai o'r Codau megis y rheiny yn ymwneud â chwningod anwes ac adar hela a gedwir at ddibenion chwaraeon. Yn bryderus, nid oes Cod Ymarfer ar hyn o bryd sy'n berthnasol i gadw anifeiliaid anwes egsotig fel ymlusgiaid a'r nifer o rywogaethau o adar a gedwir yn anifeiliaid anwes, megis parotiaid. Mae ein harolygwyr yn aml yn dosbarthu'r Codau perthnasol i berchnogion anifeiliaid anwes sydd angen cyngor, a gan eu bod yn ffynhonnell hanfodol i roi arweiniad i berchnogion anifeiliaid anwes, rydym yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i sicrhau bod yr holl godau cyfredol yn addas at y diben, yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, a bod pob anifail wedi'i gynnwys yn unol â hynny.



15. www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/pets/other/concerns
16. politicalanimal.rspca.org.uk/wales/issues/primates-as-pets



# CEFNOGI BYWYD GWYLLT CYMRU

**Mae ein gwaith gyda bywyd gwyllt yng Nghymru yn ein gweld ni'n dod i gysylltiad ag amrywiaeth o rywogaethau fel morloi, moch daear, llwynogod, adar a mwy.**

Gan fod anifeiliaid gwyllt yn wynebu mwy o heriau nag erioed o'r blaen oherwydd ymddygiad pobl, gweithgarwch anghyfreithlon a cholli cynefinoedd, mae angen mesurau diogelwch cyfreithiol cryfach i sicrhau y gall poblogaethau gwyllt adfer a ffynnu am genedlaethau i ddod. Ers etholiad diwethaf y Senedd ym mis Mai 2021, rydym wedi delio â 368 o adroddiadau yn ymwneud â bywyd gwyllt, gyda gweithgarwch anghyfreithlon a niwed bwriadol yn cyfrif am bron i ddau o bob tri o'r digwyddiadau hyn.

## Cael Deddf Bywyd Gwyllt i Gymru

Er bod 93% o bobl yng Nghymru yn credu bod diogelu bywyd gwyllt drwy ddeddfwriaeth yn bwysig yn ôl ein Mynegai Caredigrwydd diweddaraf, mae llawer o'r cyfreithiau perthnasol yn wan, yn hen ffasiwn ac yn ddiangen o gymhleth. Gallai Deddf Bywyd Gwyllt i Gymru gydgrynhoi darnau perthnasol y ddeddfwriaeth yn un ddeddf hygyrch sy'n dwyn ynghyd y cyfreithiau perthnasol yn glir i helpu i ddileu'r cymhlethdodau cyfreithiol sy'n ymwneud â bywyd gwyllt.

Er bod pobl a geir yn euog o achosi dioddefaint diangen i anifail a gedwir yn wynebu hyd at bum mlynedd yn y carchar o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, y ddedfryd uchaf am droseddau tebyg yn erbyn anifeiliaid gwyllt o dan ddeddfwriaeth fel Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yw chwe mis. Gallai deddf newydd sydd â diogelu anifeiliaid yn greiddiol iddi ddarparu amddiffyniadau cryfach i'r rhywogaethau hynny sydd eu hangen fwyaf, gan ei gwneud yn orfodol hysbysu am drosedd bywyd gwyllt a sicrhau bod gweithredoedd di-hid ac esgeulus yn rhan ohoni. Gallai'r ddeddf hefyd ei gwneud yn drosedd i berson ganiatáu i droseddau bywyd gwyllt ddigwydd ar eu tir, a thrwy hynny gyflwyno'r cysyniad o atebolrwydd dirprwyol. Gellid adolygu darparu Trwyddedau Cyffredinol hefyd fel rhan o'r ffrwd waith hon ac yn y system hon gellid cael egwyddorion moesegol wedi'u hymgorffori i reoli bywyd gwyllt.

## Dileu TB yn drugarog mewn gwartheg

Er bod RSPCA Cymru yn cydnabod effaith ddinistriol TB buchol (bTB) ar lesiant pobl ac anifeiliaid, rydym yn gwrthwynebu'n gryf ddifa moch daear fel ateb. Rydym yn derbyn, mewn rhai achosion, y gallai rheoli bywyd gwyllt fod yn angenrheidiol, ond rhaid ei wneud yn drugarog ac mai'r dewis olaf yw ymyrryd â bywyd gwyllt, a rheoli angheuol fel yr opsiwn olaf un.

Nid oes consensws gwyddonol bod difa moch daear yn effeithiol wrth ddelio â bTB mewn anifeiliaid fferm yn y tymor hir, gan fod y data perthnasol ar achosion o bTB yn amrywiol iawn ac yn tueddu i amrywio[17].

Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod difa moch daear fel ffordd o ddelio â bTB ac rydym yn galw am barhau â'r dull hwn ar ôl etholiad 2026. Mae hyn yn seiliedig ar y corff cynyddol o dystiolaeth wyddonol gadarn sy'n dangos bod difa moch daear yn aneffeithiol wrth leihau bTB mewn gwartheg[18, 19, 20]. Mae tystiolaeth newydd yn dangos y gall brechu moch daear fod yn arf effeithiol wrth leihau datblygiad bTB a pha mor ddifrifol ydyw mewn moch daear, sy'n rhywogaeth letyol i bTb[21]. Mae Cymru wedi bod yn brechu moch daear ers 2012[22], gan roi grantiau i ffermwyr i'w cefnogi i wneud hynny ar eu tir.

Fodd bynnag, bydd cyflymu uchelgais Cymru i fod yn rhydd o TB mewn ffordd ddynol a chynaliadwy hefyd yn gofyn am ganolbwyntio ar fesurau llymach wrth reoli gwartheg. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau bioddiogelwch gorfodol, lleihau symudiadau gwartheg risg uchel, yn ogystal â datblygu brechlyn diogel ac effeithiol ar gyfer gwartheg.



**Mae Cymru wedi bod yn brechu - yn hytrach a difa - moch daear ers 2012 gan roi grantiau i ffermwyr i'w cefnogi i wneud hynny ar eu tir.**

17. www.gov.wales/incidence-tuberculosis-tb-cattle-great-britain
18. Torgerson et al., 2024. Randomised Badger Culling Trial lacks evidence for proactive badger culling effect on tuberculosis in cattle: comment on Mills et al. 2024, Parts I & II. bioRxiv.
19. Langton, T.E., Jones, M.W. and McGill, I., 2022. Analysis of the impact of badger culling on bovine tuberculosis in cattle in the high-risk area of England, 2009–2020. Veterinary Record, 190(6), p.e1384.
20. www.nature.com/articles/s41598-024-67160-0
21. Woodroffe et al., 2024. Farmer-led badger vaccination in Cornwall: Epidemiological patterns and social perspectives. People and Nature, 6(5), pp.1960-1973.
22. www.theguardian.com/environment/2012/mar/20/badger-cull-wales-abandoned-vaccination

RSPCA CYMRU.

Cymdeithas Frenhinol er Atal
Creulondeb i Anifeiliaid

/rspcacymru @rspcacymru /rspca_official

Elusen gofrestredig rhif 219099

© RSPCA 2025. Cedwir pob hawl. Ni ddylid atgynhyrchu na defnyddio'r deunydd hwn
mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol yr RSPCA.

Registered with FUNDRAISING REGULATOR